**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eyn Cyf: MA HIDCC 987/26

Neil Sachdev
Cadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
Nilesh.Sachdev@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

2 Ebrill 2026

Annwyl Neil,

Diwygiwyd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y Gorchymyn") gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Estyn i Weithgareddau Morol) 2026 ("Gorchymyn 2026"). Daw Gorchymyn 2026 i rym ar 1 Gorffennaf 2026 ac mae'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, mewnosod Atodlen 2A yng Ngorchymyn 2020. Effaith paragraff 37 o Atodlen 2A yw y caiff gweithredwr morol gynnwys yn ei adroddiad allyriadau blynyddol i'w reoleiddiwr hawliad lleihau allyriadau sy'n deillio o danwydd cymwys sy'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol. Daw'r gostyngiad trwy briodoli ffactor allyriadau o sero i unrhyw danwydd cymwys. Mae tanwydd yn gymwys pan gaiff ei enwi mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Baragraff 37(1)(a) o Atodlen 2A o'r Gorchymyn.

Rhoddir y cyfarwyddyd isod i CNC fel gweinyddwr y cynllun masnachu yn unol ag adran 52 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ("y Ddeddf"). Mae adran 52(3) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i CNC gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan Weinidogion Cymru. Rhag unrhyw amheuon, mae'r tanwyddau a enwir yn y cyfarwyddyd hwn yn danwyddau cymwys o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen.

**Cyfeiriad o sylwedd at Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (RED) yr EU:**

Yn unol â hyn, mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn rhoi'r cyfarwyddyd a ganlyn:

1. Yn ddarostyngedig i baragraffau 2 i 4, mae tanwydd a ardystir o dan un neu ragor o'r Cynlluniau a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodiad A yn danwydd cymwys at ddibenion paragraff 37(1)(a) (hawliadau lleihau allyriadau) o Atodlen 2A i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020.
2. Os oes tanwydd yn cael ei enwi yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodiad A, dim ond y tanwydd hwnnw sydd i'w drin fel pe bai wedi'i ardystio gan y cynllun yng ngholofn 1 o'r tabl.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Os biomas yw'r deunydd crai a enwir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodiad A ar gyfer tanwydd, mae'r tanwydd cyfatebol yn danwydd cymwys os yw'n bodloni'r meini prawf arbed allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynaliadwyedd, neu'n rhagori arnynt, a bennir yn Erthygl 29(2) i (7) a (10) o Gyfarwyddeb (EU) 2018/2001 ar hyrwyddo'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy (y Gyfarwyddeb) ar 1 Ebrill 2026.
4. Os yw'r tanwydd yn danwydd adnewyddadwy o darddiad anfiolegol neu'n danwydd carbon wedi'i ailgylchu, mae'r tanwydd hwnnw'n danwydd cymwys os yw'n bodloni'r meini prawf arbed allyriadau nwyon tŷ gwydr, neu'n rhagori arnynt, yn unol ag Erthygl 29a o'r Gyfarwyddeb ar 1 Ebrill 2026.

**Diffiniadau:**

Ystyr *'biomas'* yw cyfran bioddiraddadwy cynhyrchion, gwastraff a gweddillion amaethyddiaeth sy'n fiolegol eu tarddiad, gan gynnwys sylweddau llysieuol ac anifeilaidd, o goedwigaeth a diwydiannau cysylltiedig, gan gynnwys pysgodfeydd a dyframaethu, yn ogystal â chyfran bioddiraddadwy gwastraff, gan gynnwys gwastraff diwydiannol a threfol biolegol eu tarddiad.

Ystyr *'tanwydd carbon wedi'i ailgylchu'* (RCF) yw tanwydd hylif a nwy a gynhyrchir o ffrydiau gwastraff hylif neu solet o darddiad anadnewyddadwy nad ydynt yn addas ar gyfer adfer deunyddiau yn unol ag Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC (ar 1 Ebrill 2026), neu o nwy prosesu gwastraff a nwyon egsost o darddiad anadnewyddadwy a gynhyrchir o ganlyniad anochel ac anfwriadol o'r broses gynhyrchu mewn gweithfeydd diwydiannol.

Ystyr *'tanwyddau adnewyddadwy o darddiad anfiolegol'* (RFNBO) yw tanwyddau hylif a nwy y daw y cynnwys ynni ynddynt o ffynonellau adnewyddadwy ac eithrio biomas.

ystyr *'ffynonellau adnewyddadwy'* yw ffynonellau adnewyddadwy nad ydynt yn ffosiliau, sef ynni gwynt, solar (solar thermol a solar ffotofoltäig) ac ynni geothermol, ynni osmotig, ynni amgylchynol, ynni'r llanw a'r tonnau ac ynni cefnforol arall, ynni dŵr, biomas, nwy tirlenwi, nwy gweithfeydd trin carthion a bionwy.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Atodiad A: Cynlluniau Ardystio Gwirfoddol a gydnabyddir fel rhai sy'n dangos cydymffurfiaeth â RED yr UE**

| Colofn 1<br>Cynllun | Colofn 2<br>Deunydd crai | Colofn 3<br>Tanwydd(au) | Colofn 4<br>Cwmpas Daearyddol | Colofn 5<br>Cwmpas Cadwyn y Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Ardystio Amaethyddol Awstria (AACS)** | Deunydd crai amaethyddol, olewau llysiau (gan gynnwys gweddillion) | Biodanwyddau, tanwydd nwy | Byd-eang | Y fferm a'r prosesu cychwynnol (e.e. malu hadau olew) yn unig |
| **Bettes Biomass** | Biomas amaethyddol (gan gynnwys gwastraff a gweddillion) | | Byd-eang | Y gadwyn lawn (biomethan hyd at yr uned gynhyrchu) |
| **Biomass Biofuels voluntary scheme (2BSvs)** | Biomas amaethyddol (gan gynnwys gwastraff a gweddillion) | | Byd-eang | Y gadwyn lawn (biomethan hyd at yr uned gynhyrchu) |
| **Bonsucro EU** | Cansen siwgr a gweddillion | Bioethanol cenhedlaeth gyntaf a Bioethanol Uwch, tanwydd biomas. | Byd-eang | Y gadwyn lawn |
| **CertifHy** | RFNBOs | RFNBOs | Byd-eang | Y gadwyn lawn |
| **Tystysgrif Cynaliadwyedd a Charbon Ryngwladol (ISCC EU)** | Biomas amaethyddol, biomas coedwigoedd, gwastraff a gweddillion. | | Byd-eang | Y gadwyn lawn (ar gyfer biomethan o'r uned gynhyrchu i'r pwynt defnydd) |
| **KZR INiG** | Biomas, gwastraff a gweddillion o amaethyddiaeth a choedwigaeth | | Byd-eang (Gwlad Pwyl yn bennaf) | Y gadwyn lawn (biomethan hyd at yr uned gynhyrchu) |
| **Rhaglen ar gyfer Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC)** | Biomas, gwastraff a gweddillion coedwigoedd | Tanwydd biomas yn unig (heb gynnwys biodanwydd, bionwy, RFNBOs, RCFs) | Byd-eang | Y gadwyn lawn |
| **REDcert** | Biomas amaethyddol (ac eithrio deunydd crai sy'n sbarduno newid defnydd tir carbon uchel), gwastraff a gweddillion | | Byd-eang (rhai gwledydd) | Y gadwyn lawn (ar gyfer biomethan o'r uned gynhyrchu i'r pwynt defnydd) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Red Tractor Farm Assurance Combinable Crops & Sugar Beet Scheme (Red Tractor)** | Biomas amaethyddol (cnydau combein, betys siwgr). Ond nid gwastraff, gweddillion a biomas coedwig a Thystysgrif Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | Biodanwydd o gnydau combein a betys siwgr | DU (Cymru a Lloegr yn bennaf) | O'r fferm i'r pwynt derbyn cyntaf |
| **Round Table on Responsible Soy EU RED (RTRS EU RED)** | Soi | Biodanwyddau | Byd-eang | Y gadwyn lawn |
| **Roundtable on Sustainable Biomaterials (RSB)** | Biomas, gwastraff a gweddillion amaethyddol (ac eithrio biomas coedwigoedd) | | Byd-eang | Cadwyn lawn (ar gyfer biomethan hyd at yr uned gynhyrchu) |
| **Scottish Quality Farm Assured Combinable Crops (SQC)** | Biomas amaethyddol (cnydau combein). Ond nid gwastraff, gweddillion a biomas coedwig a Thystysgrif Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | Biodanwydd sy'n deillio o gnydau combein | Y Deyrnas Unedig (yn bennaf yn yr Alban ond hefyd yng Ngogledd Prydain Fawr) | O'r fferm i'r pwynt derbyn cyntaf |
| **Rhaglen Biomas Cynaliadwy (SBP)** | Deunydd lignoseliwlosig o dir coedwig a thir nad yw'n goedwig; prosesu gweddillion diwydiannau coedwigaeth ac amaethyddol; gweddillion amaethyddol coediog | Tanwydd biomas (pelenni a sglodion pren) a gynhyrchir o ddeunydd ligno-seliwlosig coedwig a di-goedwig a gweddillion prosesu diwydiannau coedwigaeth ac amaethyddiaeth ar gyfer cynhyrchu gwres a thrydan | Byd-eang | Y gadwyn lawn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun gwirfoddol Adnoddau Cynaliadwy (SURE)** | Biomas amaethyddol a choedwigol (gan gynnwys gwastraff a gweddillion) | Tanwydd biomas | Byd-eang | Cadwyn lawn (ar gyfer biomethan o'r uned gynhyrchu i'r pwynt defnydd) |
| **Cynllun Sicrwydd Masnach ar gyfer Cnydau Combein (TASCC)** | Biomas amaethyddol (cnydau combein a betys siwgr). Ond nid gwastraff, gweddillion a biomas coedwig a Thystysgrif Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | Biodanwydd o gnydau combein a betys siwgr | DU | Y camau masnachu, cludo a storio o giât y fferm i'r prosesydd cyntaf gyda modiwlau penodol sy'n cwmpasu masnachu, cludo, storio a phrofi |
| **Universal Feed Assurance Scheme (UFAS)** | Biomas amaethyddol (cnydau combein a betys siwgr). Ond nid gwastraff, gweddillion a biomas coedwig a Thystysgrif Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | Biodanwydd o gnydau combein a betys siwgr | Y DU ac Iwerddon | Y camau masnachu, cludo a storio o giât y fferm i'r prosesydd cyntaf gyda modiwlau penodol sy'n cwmpasu masnachu a gwneuthurwyr bwyd cyfansawdd i anifeiliaid |
| **Protocol Sicrwydd Cynaliadwyedd Soi yr Unol Daleithiau - Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (SSAP-RED)** | Ffa soia ar gyfer cynhyrchu biodiesel. Nid yw gwastraff a gweddillion wedi'u cynnwys yn y cynllun | Biodanwyddau o ffa soia | Ffa soia o'r Unol Daleithiau yn unig | O'r fferm i allforio ffa soia (ac eithrio malu, morgludo a chynhyrchu a dosbarthu biodiesel o ffa soia) |